**Sesiwn Holi ac Ateb Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru – Dydd Iau 23 Mai 2024**

**Presenoldeb a Chwestiynau Cyhoeddus** fel ar 20/05/24

Testun glas – cwestiwn penodol ar gyfer cyfarfod y Bwrdd (golygwyd a chyfieithwyd o'r Saesneg)

| Enw | Cwestiwn / Maes Diddordeb | Sefyllfa Bresennol | Ymateb gan... |
|---|---|---|---|
| | 1) Pwy wnaeth y penderfyniad i symud Canolfan Ymwelwyr Ynyslas i'r Adran Fasnachol (lle'n amlwg, nid yw'n cael ei werthfawrogi) ac a ellid ei symud? Beth fyddai ei angen i'w symud i Weithrediadau neu Reoli Adnoddau - lle y dylai fod?<br><br>2) A yw'r bwrdd yn ymwybodol bod y cyhoedd wedi cael eu camarwain dro ar ôl tro gan yr Adran Fasnachol mewn perthynas â'u cynlluniau ar gyfer Canolfan Ymwelwyr Ynyslas? Pan ofynnwyd am gynlluniau i'w gau, honnodd y Pwyllgor Gwaith na fu erioed gynnig i'w gau - er iddo gael ei gyhoeddi a'i ddosbarthu ar 29 Tachwedd 2023 (gweler yr atodiad a gafwyd trwy gais Rhyddid Gwybodaeth), a detholiad o atebion ysgrifenedig a gyflwynwyd mewn ymateb i gwestiynau a godwyd mewn Cyfarfod Cyhoeddus yn Borth ar 13/2023<br><br>3) Pam y dylai'r cyhoedd ymddiried yn CNC i ddweud y gwir yn y dyfodol neu weithredu er budd natur, yr amgylchedd a'r cyhoedd? | Gwnaethpwyd y penderfyniad i symud Canolfannau Ymwelwyr o 'Gweithrediadau' i 'Masnachol' ym mis Mai 2023 gan y tîm gweithredol. Mae cyllid cyhoeddus yn eithriadol o dynn ar draws y Deyrnas Unedig gyfan. O'r herwydd, mae'n rhaid i ni edrych ar draws ein holl gylch gwaith ac adolygu'n feirniadol yr hyn y gallwn ac y mae'n rhaid i ni barhau i'w wneud, yr hyn yr ydym yn ei atal, a'r hyn yr ydym yn ei arafu neu'n ei wneud yn wahanol er mwyn cyflawni uchelgeisiau ein Cynllun Corfforaethol. Nid yw hyn yn wahanol i unrhyw gorff arall yn y sector cyhoeddus ar hyn o bryd.<br><br>Rydym eisoes wedi cymryd camau sylweddol i leihau'r pwysau ariannol sydd arnom, megis rheolaethau recriwtio llymach a lleihau'r defnydd o gontractau asiantaeth a chontractau dros dro. Mae hyn wedi rhoi mwy o amser i'n Bwrdd a'n Tîm Gweithredol ystyried ein blaenoriaethau a chytuno arnynt gyda Llywodraeth Cymru. Mae ein hadolygiad o ganolfannau ymwelwyr yn rhan o'r gwaith ehangach hwn.<br><br>Mae'r Gohebydd wedi cyflwyno llythyr ychwanegol i'r bwrdd lle rhoddwyd sylw i hyn. | |
| | Mae Canolfan Ymwelwyr Ynyslas yn wahanol iawn i'r ddwy ganolfan arall sy'n cael eu hystyried ar gyfer eu cau. Efallai ei fod yn fach, ond mae ei werth yn aruthrol - fel canolfan les, canolfan addysg gyhoeddus, ac ar gyfer cynnal a chadw twyni. A allwch roi sicrwydd inni y bydd dyfodol y Ganolfan yn cael ei ystyried yn unigol, gan gofio'r rôl bwysig y mae'n ei chwarae ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol? | Mae gweithrediadau'r Ganolfan Ymwelwyr yn cael eu hystyried o ran anghenion a chylch gwaith cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), ac o ran manteision a risgiau unigol pob safle. Gwerthfawrogwn y gwerth y mae ein holl ganolfannau yn ei gyfrannu i'r ystad. Er enghraifft, yn Ynyslas, rydym yn gwerthfawrogi ei bod wedi'i lleoli o fewn Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG) a bod angen ystyried dyfodol parhaus y | |

| Enw | Cwestiwn / Maes Diddordeb | Sefyllfa Bresennol | Ymateb gan... |
|---|---|---|---|
| | | GNG yn ogystal ag ystyried y Ganolfan Ymwelwyr ei hun. Mae ei natur unigryw yn cael ei hystyried fel rhan o'r adolygiad ac nid ydym yn argymell un dull sy'n addas i ddyfodol pob canolfan. | |
| | Sut mae CNC yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r saith nod sydd wedi'u cynnwys yn neddfwriaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran cynlluniau ar gyfer Coed y Brenin yn y dyfodol? | Mae CNC yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn fawr, a'r saith nod sydd ynddi. Ein dyletswydd yw cymhwyso'r nodau hyn yn erbyn ein swyddogaethau statudol ac amcanion ein cynllun corfforaethol. Yn ogystal, rheolir Coed y Brenin o dan nifer o ofynion eraill gan gynnwys Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a'r Ddeddf Coedwigaeth, er enghraifft. Mae dyfodol Coed y Brenin yn cael ei ystyried yn erbyn yr holl ofynion cyfreithiol hyn yn ogystal ag uchelgeisiau'r sefydliad ei hun. Bydd cynlluniau terfynol mewn perthynas â'r Ganolfan Ymwelwyr yn cael eu cytuno gyda Lywodraeth Cymru. | |
| | Sut y mae CNC yn bwriadu cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, os ydynt yn mynd i gau'r tair prif ganolfan yn y Canolbarth sy'n annog pobl i fynd allan i gefn gwlad a gwneud ymarfer corff? | Cadarnhau: nid oes penderfyniad terfynol i gau'r canolfannau ymwelwyr wedi'i wneud. Nid yw Canolfannau Ymwelwyr yn wasanaeth statudol, a hyd yn oed os bydd y canolfannau eu hunain yn cau, bydd y safleoedd yn dal yn hygyrch ac yn parhau i fod ar gael i'w defnyddio, bydd cyfleusterau toiled yn parhau, a bydd llwybrau hamdden yn dal i fodoli. Mae CNC yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn fawr, a'r saith nod sydd ynddi. Ein dyletswydd yw cymhwyso'r nodau hyn yn erbyn ein swyddogaethau statudol ac amcanion ein cynllun corfforaethol. Rheolir Coed y Brenin o dan nifer o ofynion eraill gan gynnwys Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a'r Ddeddf Coedwigaeth, er enghraifft. Mae dyfodol Coed y Brenin yn cael ei ystyried yn erbyn yr holl ofynion cyfreithiol hyn yn ogystal ag uchelgeisiau'r sefydliad ei hun. Bydd cynlluniau terfynol mewn perthynas â'r Ganolfan Ymwelwyr yn cael eu cytuno gyda Lywodraeth Cymru. | |
| | Nid ydym wedi derbyn unrhyw neges glir gan CNC ynglŷn â'r bwriad i gau, rhesymau ariannol a roddwyd i ddechrau a rhesymau amgylcheddol yn awr. Os bydd parcio yn cael ei gyfyngu ar y traeth, i ble bydd y ceir yn mynd? | Mae CNC wedi bod yn glir yn ei neges bod angen ailystyried yr hyn yr ydym yn parhau i'w wneud, yr hyn yr ydym yn ei atal, ac yr hyn y bydd rhaid inni ei wneud yn well, er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau a nodir yng Nghynllun Corfforaethol CNC. Yn | |

| Enw | Cwestiwn / Maes Diddordeb | Sefyllfa Bresennol | Ymateb gan... |
|---|---|---|---|
| | Mae llawer o aelodau'r gymuned yn barod i gymryd rhan, er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i Ganolfan Ymwelwyr Ynyslas. A all CNC amlinellu eu syniadau a'u cynlluniau cyfredol ar gyfer y traeth a Chanolfan Ynyslas? | achos canolfannau ymwelwyr, mae'r ystyriaethau wastad wedi bod yn rhannol ariannol ac yn rhannol amgylcheddol. O ran Ynyslas, mae pryderon sylweddol ynghylch pwysau ymwelwyr ar y safle ac effaith amgylcheddol parcio ar y traeth, yn ogystal â chostau gweithredu a chostau atebolrwydd cynyddol.<br><br>Hyd yn hyn, nid oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud. Rydym yn awyddus i weithio gyda'r grŵp cymunedol a dechrau'r sgyrsiau hynny, unwaith y byddwn yn gwybod beth fydd y cynnig ar gyfer y safle. | |
| | Mae CNC wedi datgan bod ganddo bartner yn barod i gymryd drosodd/rhannu rheolaeth y Ganolfan Ymwelwyr yn Ynyslas. A all CNC gadarnhau hyn a dweud pwy yw'r partner.<br>Cwestiwn:<br>Yn eu 'Nodyn Briffio am Ddyfodol Canolfan Ymwelwyr Ynyslas' - a anfonwyd at staff Ynyslas ar 29 Tachwedd 2023 - dywedodd CNC y canlynol:<br>'Dylid cynnig y Ganolfan Ymwelwyr i'r gymuned i'w defnyddio gan fentrau cymdeithasol neu ddefnydd cymunedol arall. Tîm Masnachol i fwrw ymlaen â thrafodaethau er mwyn canfod a phennu diddordeb.<br>Fel y grŵp cymunedol mwyaf llafar sydd â diddordeb yn nyfodol Ynyslas, nid yw Achub ein Canolfan wedi gweld y cynnig hwn. A wnaiff CNC gadarnhau i bwy y gwnaed cynnig o'r fath a pha gynnydd sydd wedi'i wneud ar unrhyw drafodaethau. | Nid yw CNC wedi dechrau trafodaethau ag unrhyw bartïon â diddordeb sy'n barod i rannu rheolaeth y ganolfan ymwelwyr. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod y gymuned wedi mynegi diddordeb mewn gweithio gyda ni. Hyd yn hyn, ni wnaed unrhyw gynnig i unrhyw bartïon na grwpiau cymunedol.<br><br>Ni allwn bwyso a mesur hyfywedd parti sydd â diddordeb hyd nes y byddwn yn gwybod beth yw'r cynnig ar y safle - ac mae hynny'n dibynnu ar y penderfyniad terfynol.<br><br>Unwaith y byddwn yn glir am ddyfodol Ynyslas, gallwn ailystyried pa gamau a gymerwn o ran unrhyw fuddiant cymunedol. | |
| | A allwch ddweud wrthyf os gwelwch yn dda sut rydych yn bwriadu i aelodau'r cyhoedd gael mynediad i'r traeth yn Ynys Las os penderfynwch gau'r maes parcio ar y traeth? | Os bydd y maes parcio yn cau, bydd angen i ymwelwyr â'r safle barcio yn y Borth a cherdded i'r safle. Ar hyn o bryd, byddem yn gobeithio y byddai'r mannau parcio anabl fod ar gael o hyd ar gyfer deiliaid bathodynnau glas. | |
| | A minnau newydd ddarllen ateb i ******** hoffwn wybod sut y gall fod yn gyfreithlon cau'r hawl mynediad i'r ffordd hynafol oedd yn arwain at y fferi yn Ynyslas. Pa fath o rwystrau a ddefnyddir a all barhau i ganiatáu mynediad i'r 'fferi', mynediad i gerbydau brys, a | Rydym yn dal i archwilio'r mater o hawl mynediad i'r ffordd gyda Chyngor Ceredigion ac rydym yn gwneud ymchwiliad trylwyr i benderfynu ar yr union sefyllfa. | |

| Enw | Cwestiwn / Maes Diddordeb | Sefyllfa Bresennol | Ymateb gan... |
|---|---|---|---|
| | mynediad i'r fyddin i gael gwared ar ordnans y deir o hyd iddynt yn rheolaidd ar y traeth.<br>Hoffwn ofyn hefyd - ble mae'r dystiolaeth o ran y llygryddion hyn (meicro-blastigau teiars ac olew yn gollwng) yn Ynyslas. Nid wyf erioed wedi gweld tystiolaeth o ollyngiadau olew mawr.<br>Bydd y pwysau gan ymwelwyr yn fwy o broblem pan nad oes wardeniaid i reoli ac addysgu’r llif o bobl gan fy mod yn eithaf sicr y byddant yn dal i ddod. | O ran rhwystrau, mae gennym rai ar draws yr ystad rydym yn ei rheoli - rhai sy'n cynnig mynediad i gerbydau brys ac ati, ac mae systemau niferus ar gael sy'n caniatáu mynediad dethol.<br><br>Mae'r mathau o lygryddion y sonnir amdanynt yn yr ymateb wedi'u dogfennu'n dda. Fel gyda llawer o lygredd, cronni graddol yw’r broblem. Mae’n bwysig ein bod yn gwarchod y safleoedd hyn am amser hir i ddod. Fodd bynnag, mae arolygon yn cael eu cynnal ar hyn o bryd i ddarparu adroddiad safle o ran yr effeithiau amgylcheddol ar y safle.<br><br>Rydym yn ymwybodol bod Ynyslas yn unigryw ac rydym am iddi barhau felly. Bydd y GNG yn parhau i gael ei hariannu a'i staffio beth bynnag fydd canlyniad adolygiad y Ganolfan Ymwelwyr. | |
| | Sut byddai CNC yn atebol am unrhyw ddiffyg o ran diogelu’r twyni tywod a bywyd gwyllt pe bai’n gorfod cau’r ganolfan ymwelwyr?<br><br>Er fy mod yn deall y gallai cau’r maes parcio fod o fudd i’r warchodfa (e.e. llygredd), sut y byddai CNC yn delio â’r posibilrwydd o bobl yn parcio ar hyd y ffordd ac ym maes parcio’r cyffordd glan y môr - sy’n eiddo i’r clwb golff? Felly, byddai pobl yn dal i fynd ar y twyni tywod, heb unrhyw wyliadwriaeth (ee. dim staff CNC yn y caffi yn gwneud eu gwaith amhrisiadwy o wasanaethu cwsmeriaid, a chadw llygad ar yr tir o amgylch)? Sut fyddech chi'n sicrhau hygyrchedd a diogelwch yr ardal os nad oes neb ar y safle? | Mae’r ganolfan ymwelwyr a’r tîm sy’n rheoli’r Warchodfa Natur Genedlaethol yn dimau ar wahân ac mae ganddynt ddyletswyddau statudol gwahanol. Mae’n bwysig gwahanu’r ddau, er ein bod yn gwerthfawrogi bod presenoldeb staff ychwanegol ar y safle wedi cael effaith gadarnhaol ar y GNG. Mae pwysau ymwelwyr ar y safle yn bryder mawr. Ar hyn o bryd rydym yn asesu effaith cau'r maes parcio ar yr amgylchedd - a sgil-effeithiau megis y rhai yr ydych wedi sôn amdanynt o ran parcio. | |
| | Achub Ein Canolfan – Grŵp Ynyslas<br><br>Annwyl aelodau bwrdd CNC,<br><br>Yn wyneb eich cyfarfod sydd i ddod ac ar ran y 7,090 o unigolion pryderus a lofnododd y deisebau cyfunol - rydym wedi ein drysu. Fel un o’r 200 a mwy o fynychwyr yng nghyfarfod y Borth, clywais Sarah Jennings yn datgan yn uchel ac yn glir (dydw i ddim yn un | Nid oes penderfyniad terfynol wedi ei wneud ar y ganolfan ymwelwyr. Rydym yn cydnabod bod cam-gyfathrebu wedi digwydd, gan achosi 'opsiwn' posibl i gael ei ystyried ar gam fel penderfyniad terfynol. Hysbyswyd y staff yn gywir - ond yna tynnwyd y 'penderfyniad' yn ôl ar unwaith, ac mae'r tîm wedi bod yn parhau i adolygu'r opsiynau sydd ar gael i CNC. | |

| Enw | Cwestiwn / Maes Diddordeb | Sefyllfa Bresennol | Ymateb gan... |
|---|---|---|---|
| | o’r rhai sy’n drwm eu clyw) nad oedd yn fwriad gan CNC gau Canolfan Ymwelwyr Ynyslas. Gwnaeth hi’r datganiadau a’r awgrymiadau canlynol hefyd:<br><br>• Roedd Coed y Brenin a Chanolfan y Barcutiaid yn gwneud colledion o £300,000 a £400,000 y flwyddyn yn y drefn honno, tra bod Ynyslas yn colli £50,000 y flwyddyn.<br><br>• Byddai'n hawdd unioni'r diffyg hwn yn achos Ynyslas drwy gynyddu'r ffi parcio i £4.00.<br><br>• Ni fyddai unrhyw beth yn cael ei drafod - ac nid oes unrhyw beth wedi ei drafod - heb ymgynghori â'r gymuned.<br><br>• Defnyddiwyd y geiriau 'tryloywder llwyr' dro ar ôl tro i ddisgrifio ymddygiad CNC, yn flaenorol ac o ran dyfodol y ganolfan.<br><br>Felly, gydag arswyd a siom y darllenais y llythyr gan CNC dyddiedig 23/11/2023 yn cyfeirio at bapur a ysgrifennwyd ar 31/10/2023 yn nodi’r canlynol:<br><br>• Penderfynwyd cau’r ganolfan ymwelwyr i’r cyhoedd o gaeaf 2023 ymlaen, a byddai CNC yn cysylltu â chyfleusterau ar sut i ddefnyddio neu waredu’r safle sydd i’w ddatgomisiynu.<br><br>• Ystyried cael gwared ar y maes parcio oddi ar y traeth.<br><br>Rwy'n siŵr nad oes angen i mi egluro bod y ddwy set o ddatganiadau yn gwrthgyferbynnu’n uniongyrchol.<br>Gofynnwch i'r bwrdd esbonio oherwydd rwy'n cael trafferth gweld beth sydd gan ymgynghori â'r gymuned a thryloywder llwyr i'w wneud â'r cynlluniau a wnaed y llynedd. | Er bod elfen ariannol i holl ddarpariaethau ein Canolfan Ymwelwyr mae yna ffactorau eraill hefyd megis pwysau ymwelwyr, llygredd, difrod a hyfywedd hirdymor y safleoedd i'w hystyried. Nid yw codi taliadau maes parcio yn datrys yr holl ystyriaethau hyn.<br><br>O ran ymgynghori, nid yw canolfannau ymwelwyr yn wasanaeth statudol ac felly nid oes gofyniad cyfreithiol i ymgynghori yn yr achos hwn - fodd bynnag os oes sgôp i ystyried sut gall y gymuned gymryd yr awenau yn Ynyslas, byddwn yn ymgynghori â'r gymuned ar sut i wneud i hynny ddigwydd. | |

| Enw | Cwestiwn / Maes Diddordeb | Sefyllfa Bresennol | Ymateb gan... |
|---|---|---|---|
| | Cofion | | |
| | A fyddech cystal â dod yn ôl ataf i roi gwybod i mi ar ba ddyddiad y cynhelir y drafodaeth hon a sut yr ydym yn mynychu'r cyfarfod yn rhithiol. | | |
| | Os gwelwch yn dda a allem ofyn pam y symudwyd canolfan ymwelwyr Ynyslas i'r adran fasnachol, pan nad yw'n sefydliad sy'n gwneud elw, a hefyd pam, yng nghyfarfod cymunedol y Borth, y dywedodd cynrychiolwyr CNC dro ar ôl tro na phenderfynwyd bod y ganolfan yn cael ei chau yn bendant, ac mae 'gwybodaeth wallus' oedd hynny, pan fo cais Rhyddid Gwybodaeth (memo dyddiedig 29 Tachwedd 2023) ers hynny wedi profi i'r gwrthwyneb, a bod y penderfyniad eisoes wedi'i wneud i'w gau, heb unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus na chynnwys unrhyw Aelod o'r Senedd? | Mae'r Tîm Masnachol o fewn CNC yn gyfrifol am sicrhau'r gwerth mwyaf, sy'n cynnwys nid yn unig incwm ond hefyd buddion i bobl a buddion i'r blaned ar yr ystad rydym yn ei rheoli ar ran Llywodraeth Cymru. Mae cyllid cyhoeddus yn eithriadol o dynn ar draws y Deyrnas Unedig gyfan. O'r herwydd, mae'n rhaid i ni edrych ar draws ein holl gylch gwaith ac adolygu'n feirniadol yr hyn y gallwn ac y mae'n rhaid i ni barhau i'w wneud, yr hyn yr ydym yn ei atal, a'r hyn yr ydym yn ei arafu neu'n ei wneud yn wahanol i gyflawni uchelgeisiau ein Cynllun Corfforaethol. Nid yw hyn yn wahanol i unrhyw gorff arall yn y sector cyhoeddus ar hyn o bryd.<br><br>Rydym eisoes wedi cymryd camau sylweddol i leihau'r pwysau ariannol sydd arnom, megis rheolaethau recriwtio llymach a lleihau'r defnydd o gontractau asiantaeth a chontractau dros dro. Mae hyn wedi rhoi mwy o amser i'n Bwrdd a'n Tîm Gweithredol ystyried ein blaenoriaethau a chytuno arnynt gyda Llywodraeth Cymru. Mae ein hadolygiad o ganolfannau ymwelwyr yn rhan o'r gwaith ehangach hwn.<br><br>Rydym yn cydnabod bod cam-gyfathrebu wedi digwydd, gan achosi 'opsiwn' posibl i gael ei ystyried ar gam fel penderfyniad terfynol. Hysbyswyd y staff yn gywir - ond yna tynnwyd y 'penderfyniad' yn ôl ar unwaith, ac mae'r tîm wedi bod yn parhau i adolygu'r opsiynau sydd ar gael i CNC.<br><br>Nid yw Canolfannau Ymwelwyr yn wasanaeth statudol ac felly nid oes gofyniad cyfreithiol i ymgynghori ynghylch eu gweithrediadau yn y dyfodol. | |

| Enw | Cwestiwn / Maes Diddordeb | Sefyllfa Bresennol | Ymateb gan... |
|---|---|---|---|
| | Beth mae Croeso Cymru yn ei feddwl o'r camau amrywiol y mae CNC yn eu gwneud i wahardd parcio ar y traeth yn Ynyslas ac i gau'r ganolfan ymwelwyr yno? | Byddem yn argymell estyn allan at Croeso Cymru gyda'ch cwestiwn, gan na allwn siarad ar eu rhan.<br><br>Mae cylch gwaith CNC yn un amgylcheddol a'n ffocws yw diogelu a gwella amgylchedd naturiol Cymru. Rydym yn cytuno bod gan Ganolfannau Ymwelwyr le pwysig yn nhirwedd Cymru, ond nid ydynt yn wasanaeth statudol, a rhaid inni sicrhau bod ein harian yn cael ei gyfeirio fel yr amlinellir yn ein cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Unwaith y bydd y penderfyniad wedi'i wneud ar weithrediadau CNC a'i Ganolfannau Ymwelwyr yn y dyfodol gallwn archwilio opsiynau eraill gan gynnwys perchnogaeth gymunedol, eu trosglwyddo i sefydliadau eraill, a gosod gwaith ar gontract allanol lle bo hynny'n ymarferol. | |
| | Cwestiwn: A yw'r broses sy'n bownd o ragflaenu penderfyniad ar ddyfodol Canolfan Ymwelwyr Ynyslas yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus, astudiaeth effaith amgylcheddol, ac ymgais i nodi unrhyw randdeiliaid eraill yn adnoddau naturiol Cymru a allai fod yn bartner i CNC i gadw'r cyfleuster gwerthfawr hwn ar agor ? | Er na fydd ymgynghoriad cyhoeddus ar benderfyniad cychwynnol CNC gan nad yw Canolfannau Ymwelwyr yn wasanaeth statudol, efallai y bydd ymgynghoriadau ym mhob un o'n Canolfannau Ymwelwyr ynghylch y camau nesaf a rheolaeth yn y dyfodol. Gallai hyn gynnwys mewnbwn gan sefydliadau dielw eraill, grwpiau cymunedol, neu sefydliadau amgylcheddol. Mae astudiaethau effaith amgylcheddol ar y gweill ar hyn o bryd. | |